## COD YMDDYGIAD YMWELWYR

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn edrych ymlaen at eich croesawu chi i Sioe Frenhinol Cymru 2023. Yn unol â chanllawiau cyffredinol y llywodraeth ar fynediad ymwelwyr i Faes y Sioe, mae'r Cod Ymddygiad hwn yn gweithredu'n bennaf i'ch cyfarwyddo a'ch hysbysu o'r protocolau sydd yn eu lle yn ystod y digwyddiad. Mae'r trefnwyr (CAFC) wedi rhoi amryw o weithdrefnau yn eu lle, i sicrhau diogelwch pob un ymwelydd â'r Sioe. Er hynny, mae hi'n hanfodol bwysig fod pawb yn chwarae eu rhan wrth wneud y digwyddiad yn ddiogel a phleserus ac mae arnom angen eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus i gyflawni hyn. Atgoffir ymwelwyr yn garedig felly o'r gofyn i gadw at y Cod Ymddygiad hwn, ac i ddilyn yr holl ofynion diogelwch, i gynorthwyo staff a stiwardiaid, ac i helpu i'ch diogelu chi a'ch cyd-ymwelwyr.

- **Rhaid i ymwelwyr gydymffurfio ag amodau a thelerau tocynnau'r Gymdeithas ac unrhyw ganllawiau gan y Llywodraeth a all fod yn eu lle adeg y Sioe.** Bydd y rhain wedi'u hamlinellu'n llawn ar wefan y Sioe.
- Rhaid i ymwelwyr a staff beidio â mynd i'r Sioe os oes ganddynt unrhyw un o brif symptomau COVID-19 neu'u bod wedi cael canlyniad prawf cadarnhaol. Dylech ddilyn cyngor iechyd y cyhoedd.
- Cynlluniwch eich siwrnai ymhell ymlaen llawr a chyrraedd Maes y Sioe mewn da bryd. Cofiwch deithio'n ddiogel a gofalu eich bod yn gwybod y diweddaraf am y canllawiau ar deithio diogel, rhannu ceir, a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Pan gyrhaeddwch chi Faes y Sioe dilynwch yr holl wybodaeth, arwyddion cyfeirio a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau neu arweiniad a roddir gan staff a stiwardiaid, neu dros y system sain. Bydd hyn yn eich helpu i gyrraedd ble sydd arnoch angen bod yn y ffordd ddiogelaf a mwyaf effeithiol.
- Sylwch os gwelwch yn dda y bydd taliadau arian parod ond yn cael eu derbyn wrth fynedfeydd A, C a G, mae'r holl gatiau eraill yn naill ai rhai tocynnau ymlaen llaw neu'n rhai talu â cherdyn.
- Bydd ein stiwardiaid a'n timau diogelwch yn helpu i'ch cadw'n ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch lleoedd sy'n orlawn neu faterion diogelwch eraill, rhowch wybod i un o'r stiwardiaid os gwelwch yn dda. Bydd swyddogion diogelwch yn gwneud haparchwiliadau bagiau wrth y mynedfeydd.
- Gwaherddir cario diodydd meddwol o amgylch Maes y Sioe ac yfed mewn mannau cyhoeddus heblaw'r barrau dynodedig ar y safle.
- Ni chaniateir smygu mewn unrhyw fan cyhoeddus caeëdig neu rannol caeëdig, mae hyn yn cynnwys defnyddio e-sigaréts.

- Dewch yn barod ar gyfer tywydd cyfnewidiol, edrychwch beth yw rhagolygon y tywydd a dewch â chôt law addas neu ambarél fel eich bod yn gallu dal i fwynhau'r Sioe ym mhob tywydd.
- Pan fyddwch yn defnyddio'r toiledau, byddwch yn amyneddgar ac yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill os gwelwch yn dda, ac aros eich tro rhag bod ardaloedd y toiledau'n mynd yn orlawn.
- Mae'n bwysig cynnal hylendid dwylo da tra byddwch yn y Sioe – defnyddiwch y peiriannau diheintio dwylo sydd wedi'u darparu. Dylech bob amser olchi'ch dwylo cyn bwyta ac ar ôl cyffwrdd anifeiliaid, ac osgoi cyffwrdd eich wyneb, handlenni a ffensys bob tro y mae'n bosibl. Os oes problemau gyda mannau diheintio neu gyfleusterau golchi dwylo, rhowch wybod i aelod o'r staff os gwelwch yn dda.
- Os ydych yn yr Eisteddle a'ch bod ag angen symud, arhoswch nes bydd y rhodfeydd yn glir a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid ac arwyddion cyfeirio.
- Os ydych yn rhywle gorlawn ar Faes y Sioe neu dan do, cadwch bellter parchus rhyngoch chi a phobl nad ydynt yn eich grŵp os gwelwch yn dda.
- Os ydych yn mynychu'r Sioe gydag aelodau eraill o'ch teulu neu ffrindiau, gwnewch yn siŵr eu bod wedi darllen ac yn deall y canllawiau hyn.
- Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i wahardd unrhyw ymwelydd sy'n peidio â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

**Diolch ichi am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth. Arhoswch yn effro, dilynwch y canllawiau hyn, a helpwch bob un ohonom i fwynhau'r Sioe yn ddiogel.**

**Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl yn 2024.**